**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# CYFARFOD BLYNYDDOL

**18 Mehefin 2012**

**PENODIADAU I BWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad yw i gynnig i'r Awdurdod benodi aelodaeth pwyllgorau mewnol a rhai amrywiol allanol gan gynnwys cynrychiolydd i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## Cefndir

2 Mae gan yr Awdurdod gyfres o Bwyllgorau y gwneir penodiadau iddynt yn y cyfarfod cyntaf neu'r cyfarfod blynyddol. Mae'r rhain wedi eu nodi isod.

3 Yn y gorffennol, mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â chymhwyso cydbwysedd gwleidyddol i aelodaeth ei Bwyllgorau o dan Reol 20 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990. Edrychwyd ar y mater hwn eto yn ystod adolygiad cyfansoddol yng nghanol 2008-09. Mae consensws cyffredinol wedi bod na fyddai cydbwysedd gwleidyddol yn fuddiol gan fod y trefniadau presennol yn gynhwysol ac yn osgoi creu 'rhaniad gwleidyddol' yn llywodraethiad yr Awdurdod.

4 Cynrychiolir yr Awdurdod ar y cyrff canlynol:

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) | Cadeirydd fel arfer |
| Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) | un cynrychiolydd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Panel Gwasanaethau Tân Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd |
| Grŵp Cyswllt Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân Gweinidogol Tân ac Achub | Cadeirydd fel arfer |
| Fforwm Gwasanaethau Tân LGA | Un cynrychiolydd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Pwyllgor Cydlynu WLGA | un cynrychiolydd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Bwrdd Ymddiriedolwyr Atal Tân | Cadeirydd |

**Gwybodaeth**

5 Gwneir penodiadau i'r Pwyllgorau canlynol:-

- Panel Gweithredol (14 aelod)
- Pwyllgor Archwilio (14 aelod)
- Pwyllgor Safonau (2 aelod) (dim angen cydbwysedd gwleidyddol o dan Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001) (gweler adroddiad ar wahân ar yr agenda)

6 Mae cylchoedd gwaith y Pwyllgorau, os ydynt yn bodoli, wedi eu cynnwys yn Llawlyfr yr Aelodau.

7 O ystyried fod rhaid i awdurdodau cyfansoddol gymhwyso'r egwyddor o gydbwysedd gwleidyddol ar eu pwyllgorau (ond yn achos cabinetau), anogir awdurdodau i enwebu aelodau i'r Awdurdod hwn ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Dylai'r Awdurdod ei hunan ystyried yn flynyddol os yw'n dymuno cymhwyso cydbwysedd gwleidyddol, gan nodi sylwadau paragraff 3 uchod. Os fyddai'r Awdurdod yn cymhwyso'r egwyddor hyn, dylid gwneud penodiadau i bwyllgorau sy'n sicrhau fod gan yr holl awdurdodau cyfansoddol gynrychiolaeth ddigonol.

8 Mae aelodaeth o’r Panel Gweithredol yn cynnwys 14 aelod, sef Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod a dau aelod o bob awdurdod cyfansoddol. Mae’r aelodaeth yn cynrychioli 50% o aelodaeth yr Awdurdod. Estynnwyd swyddogaeth ac aelodaeth o’r Panel yn yr adolygiad cyfansoddol yn ystod 2008-09.

9 Cytunodd yr Awdurdod i gyflwyno Pwyllgor Archwilio i adolygu, craffu a sicrhau, yn annibynnol o’r Gweithredol, perfformiad gweithredol ac ariannol y sefydliad. Aelodaeth y Pwyllgor yw’r 50% o’r aelodaeth sy’n weddill sydd heb eu penodi ar y Panel Gweithredol.

## Argymhellion

10 Argymhellir fod yr Awdurdod yn:
- (i) ystyried cymhwyso’r egwyddor o gydbwysedd gwleidyddol i Bwyllgorau;
- (ii) ystyried penodiadau i’r Panel Gweithredol, Pwyllgor Archwilio a’r Pwyllgor Safonau fel a amlinellir yn yr adroddiad; a
- (iii) phenodi cynrychiolwyr i’r canlynol:

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) | Cadeirydd fel arfer |
| Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) | un cynrychiolydd o’r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Panel Gwasanaethau Tân Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd |
| Grŵp Cyswllt Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân Gweinidogol Tân ac Achub | Cadeirydd fel arfer |
| Fforwm Gwasanaethau Tân LGA | Un cynrychiolydd o’r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Pwyllgor Cydlynu WLGA | un cynrychiolydd o’r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Bwrdd Ymddiriedolwyr Atal Tân | Cadeirydd |